**GORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (SIR GAERFYRDDIN (AC EITHRIO CAERFYRDDIN, LLANELLI A RHYDAMAN)) (CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (ARBROFOL) (AMRYWIAD RHIF 40) 2023**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, gan ymarfer ei bwerau o dan Adrannau 9 a 10 a pharagraff 27 o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") (fel y'i diwygiwyd) a'r holl bwerau galluogol eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Sir Gaerfyrddin (Ac Eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman)) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Arbrofol) (Amrywiad rhif 40) 2023" a bydd yn dod i rym ar y trydydd o Ionawr 2024.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

   a. Mae Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Sir Gaerfyrddin (Ac Eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman)) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2004 ("y Gorchymyn Cydgyfnerthu") fel y'i hamrywiwyd wedi hynny trwy hyn yn cael ei addasu ymhellach fel petai'r cynlluniau sy'n dynodi Ardaloedd BI177, CV167, DI127, DI128, DH128, DT165, DU164, DU165, DY104, DY105 a DJ171, a oedd ynghlwm wrth y Gorchymyn, wedi'u cyfnewid am gynlluniau â rhifau cyfatebol sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.

   b. Ac eithrio fel y nodir yn Rhan II o'r Gorchymyn Cydgyfnerthu ni chaiff neb achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros yn unrhyw un o'r darnau ffordd neu'r ochrau ffordd a nodir ac am y cyfnodau a nodir (neu yn achos ffordd neu ochr ffordd lle caniateir aros am gyfnod cyfyngedig heblaw yn ystod y cyfnod a nodwyd) ar y cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn ac sy'n cynnwys y cyfeirnodau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) uchod.

c. Mae Gorchymyn Cydgyfnerthu (Sir Gaerfyrddin (Ac Eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman)) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 30) 2019, Gorchymyn Cydgyfnerthu (Sir Gaerfyrddin (Ac Eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman)) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 37) 2021 a Gorchymyn Cydgyfnerthu (Sir Gaerfyrddin (Ac Eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman)) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 39) 2022

   trwy hyn yn cael eu dirymu i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darnau ffordd a'r ochrau ffordd a nodir ar y cynlluniau sy'n cynnwys y cyfeirnodau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) uchod neu'r darnau ffordd a'r ochrau ffordd a fydd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau is-baragraff (b) uchod.

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN** )<br>
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** ar y ddogfen hon )<br>
ar yr 20fed o Ragfyr 2023 )

Ger fy mron i,

------------------------------------------------------------

**Linda Rees-Jones**<br>
**Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**